Centre for Alternative Technology
Canolfan y Dechnoleg Amgen

Arweiniad Astudio – hamdden a thwristiaeth

Amcanion a Nodau

Amcanion y Ganolfan yw hysbysu, addysgu ac ysbrydoli ymwelwyr. (Gweler t4 ynglŷn â hyn)
Pa dystiolaeth y gellwch ei gweld o'ch cwmpas o'r amcanion hyn yn cael eu gweithredu?

Yn eich barn chi, pa broblemau sy'n cael eu hachosi wrth geisio addysgu pobl a gwneud yn siŵr eu bod yn cael hwyl?

Rhowch enghraifft o arddangosfa sydd, yn eich barn chi, yn anelu at gyfuno hwyl a gwybodaeth.

Pa mor llwyddiannus yw hi, yn eich barn chi, a pham?

Pa welliannau y byddech yn eu gwneud iddi (heb wario gormod)?

Yn eich barn chi, pa broblemau sy'n cael eu hachosi wrth geisio addysgu pobl ac ennill incwm?

A ydych yn gweld hyn yn achosi unrhyw groesebau? Disgrifiwch y croesebau hyn gan awgrymu newidiadau y gellid eu gwneud.

Hanes

Mae'r Ganolfan ar safle hen chwarel lechi. A ydych o'r farn fod hyn yn amlwg i ymwelwyr?

A ydych o'r farn y dylid rhoi mwy o sylw i hyn?

Beth allai fod y manteision a'r anfanteision o wneud hyn?

Cludiant

Ewch o gwmpas Stryd Dwy Droed. Bydd y rhan fwyaf o ymwelwyr yn cyrraedd hefo car, ond mae'n amlwg mai cred y Ganolfan yw y byddai defnyddio ceir yn llai yn fuddiol i'r amgylchedd.
Beth mae'r Ganolfan yn ei wneud i ymdrin â'r cyfyng gyngor yma?

Beth arall fedren nhw ei wneud?

Beth allai'r llywodraeth leol a chenedlaethol a diwydiant preifat ei wneud i ymdrin â'r mater yma?

Pa oblygiadau sydd gan yr holl fater yma i'r diwydiant twristiaeth yn gyffredinol?

Ymwelwyr

Yn eich barn chi, beth mae pobl yn y grwpiau canlynol yn ei gael o ymweld â'r Ganolfan?

Beth allai gael ei wneud i wella profiad y bobl ym mhob categori?

a. teuluoedd sydd â phlant bach ar eu gwyliau

b. teuluoedd â phlant yn eu harddegau ar eu gwyliau

c. yr henoed

ch. pobl sydd â symudoledd cyfyngedig

d. oedolion nad ydynt yn gallu darllen yr arwyddion (oherwydd anllythrennedd neu olwg gwael)

Mae'r Ganolfan yn ceisio ymestyn at bob sector yn y gymdeithas, gan ddarparu rhywbeth i bawb o bob oedran ac ar bob lefel o ran cefndir addysgol. Beth yw'r anawsterau sy'n deillio o wneud hyn?

Rheolaeth

Mae'r Ganolfan yn gydweithredol gyda'r holl staff parhaol yn derbyn yr un cyflog ac yn cael dweud eu dweud wrth reoli'r lle. A ydych o'r farn fod hyn yn amlwg i ymwelwyr mewn unrhyw ffordd, neu a yw'n gwneud unrhyw wahaniaeth i brofiad yr ymwelydd?

Gofal am Gwsmeriaid

Gwnewch sylwadau ynglŷn â safonau'r gofal am gwsmeriaid rydych wedi sylwi arnynt yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen. Ym mha ffyrdd y gellir ei wella?

Effaith

Ardal amaethyddol, Gymraeg ei hiaith, yw hon yn bennaf. Mae rhai o'r trefi glan môr wedi darparu ar gyfer ymwelwyr ers y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond ar yr adeg honno, roedd diwydiant chwarelyddol a mwyngloddio ffyniannus ar waith yn yr ardal yma. Yn ei hanterth, roedd y chwarel yma'n cyflogi cannoedd o bobl. Ychydig iawn sy'n gweithio yn y chwareli erbyn hyn ac mae'r niferoedd sy'n ffermio'n llai nag y byddent.
Yn eich barn chi, pa effaith fyddai canolfannau tebyg i Ganolfan y Dechnoleg Amgen yn cael ar yr ardal a'r gymuned?